Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

# Cylchlythyr Buddsoddi a Monitro

## Diweddariad: Awst 2026

Mae'r cylchlythyr hwn yn seiliedig ar ymholiadau gan y sector ac unrhyw ddiweddariadau perthnasol gan Medr. Rydym yn croesawu adborth ar fformat y cylchlythyr hwn yn: BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

Os hoffai eraill gael y cylchlythyr, gofynnwch iddynt gysylltu â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod os gwelwch yn dda.

### Diweddariadau cyffredinol

- **Diweddariad ar y Datganiad Polisi Buddsoddi**
  Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Datganiad Polisi Buddsoddi bellach ar gau. Diolch i bawb a gyfrannodd. Byddwn yn adolygu'r ymatebion ac yn cynhyrchu adroddiad yn hwyr yn yr hydref.

- **Cyfeiriadur Rhaglenni**
  Mae'r Cyfeiriadur Rhaglenni newydd ar gyfer 2026/27 bellach yn fyw ar wefan Medr. Gellir ei gyrchu trwy adroddiad rhyngweithiol byw ac fel ffeil PDF i'w lawrlwytho. Rhannwyd taenlen Excel gyda'r sector yng nghylchlythyr Gorffennaf 2026. Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar yr offer hyn, felly cysylltwch â'r tîm gydag unrhyw sylwadau neu gwestiynau.

- **Rhaglenni nas defnyddir mwyach**
  Bydd Medr yn diweddaru'r Cyfeiriadur Rhaglenni ac yn dileu rhaglenni nas defnyddir mwyach i'w gadw'n eglur ac yn hawdd edrych drwyddo. Bydd rhaglenni heb unrhyw ddysgwyr wedi'u cofrestru am bum mlynedd academaidd neu fwy'n cael eu tynnu allan ar ddiwedd 2026/27. Os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â'r Tîm Buddsoddi a Monitro cyn diwedd y flwyddyn galendr, gan y bydd gwaith monitro'n dechrau ym mis Ionawr 2027.

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Cyllid amser llawn

- Dim diweddariadau ar gyfer y sector.

## Cyllid rhan-amser

**Cymwysterau Cyfrif Dysgu Personol (PLA) a Gymeradwywyd o'r Newydd**

| Cyf LAim OfQual | Rhif Cymeradwyo CC | Teitl | Cod y Rhaglen (LP74) |
|---|---|---|---|
| P0000837 | P0000837 | CompTIA DataAI | 9700QXXV |

**Dysgu Oedolion yn y Gymuned**

- **Tystysgrifau Gwariant**
  Bwriedir anfon Tystysgrif Gwariant ar gyfer darparu a LEAF (Cronfa Gweithgarwch Ymgysylltu â Dysgwyr) ym mis Medi i'w ddychwelyd erbyn **30 Medi 2026.**
- **Wythnos Addysg Oedolion**
  Wythnos Addysg Oedolion (21 - 27 Medi) Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi cynhyrchu ffilm hyrwyddo i gael rhagor o wybodaeth am yr wythnos a phecyn ymgyrch sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth ac adnoddau i gefnogi gweithgareddau.
- **Model Cyllido Dysgu Oedolion yn y Gymuned**
  Mae'r tîm ystadegau yn trosglwyddo cyfrifiadau model cyllido Dysgu Oedolion yn y Gymuned i Medr ar 21 Awst. Nid oes unrhyw newidiadau sylfaenol i'r rhesymeg sylfaenol. Rydym wedi bod yn profi'r model ac nid ydym yn rhagweld unrhyw broblemau; fodd bynnag, rhowch wybod inni os byddwch yn gweld unrhyw broblemau yn adroddiadau grant dysgu cymunedol (GDC) ar LLWR.

## Prosiectau Arbennig

**Mae'r dogfennau canlynol ar gyfer 2026/27 bellach ar gael ac wedi'u cyhoeddi ar wefan Medr:**

- Canllawiau Prentisiaethau Iau 2026/27
- Canllawiau Cyllid Pontio Ôl-16 2026/27
- Manyleb y Rhaglen Adferiad a Chynnydd Dysgwyr (LRP) 2026/27 - ALlau
- Manyleb y Rhaglen Adferiad a Chynnydd Dysgwyr (LRP) 2026/27 - SABau

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

- Sylwer bod Adferiad a Cynnydd Dysgwyr bellach yn rhan o'r Gronfa Cymorth a Llesiant ehangach ac y dylid darllen y ddwy ddogfen ganllaw ar y cyd â'i gilydd.

**Mae bellach yn bryd cyflwyno dogfennaeth fonitro mewn perthynas â 2025/26:**

- Dylid cyflwyno dogfennaeth **Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr 2025/26** i Medr **erbyn 31 Awst 2026.** Dylai hyn gynnwys:
  - Ffurflen Monitro a Gwerthuso; a
  - Datganiad o Wariant.

- Dylid cyflwyno dogfennaeth **Cyllid Pontio 2025/26** i Medr **erbyn 30 Medi 2026.** Dylai hyn gynnwys:
  - Ffurflen Monitro a Gwerthuso Cyllid; a hefyd
  - Tystysgrif Gwariant.

Dylid anfon yr holl ddogfennau i BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

## CDY/ADY

- Dim diweddariadau ar gyfer y sector y mis hwn.